

Mawrth 2019

Rhifyn 274



Gair y Gweinidog

Mae'r darlun ar y clawr yn atgoffa rhywun o ddau beth. Yn gyntaf, er ei bod hi'n parhau yn aeaf mae arwyddion y gwanwyn o'n hamgylch ym mhob man. Hyfrydwch y diwrnod o'r blaen oedd gweld defaid ac wŷn yn cael eu troi allan a bywiogrwydd ambell oen yn arwydd o'u rhyddid newydd. Golygfa naturiol yn gweithredu fel rhyw fath o sbardun i feddwl am bethau mewn ffyrdd gwahanol. Ar dudalennau Perthyn y mis hwn mae yna erthygl gan Wyn Evans, blaenor yng nghapel Caradog, cadeirydd Bwrdd Da Byw, NFU Cymru yn rhannu teimladau yng nghyd destun Ewrop a'r penderfyniad i adael. Fe fyddai'n wir dweud bod y gymuned amaethyddol yn asgwrn cefn yr Eglwys yn ein gwlad a'n consyrn tros ei phobl yn gonsyrn cyffredinol tros bawb fydd yn cael eu heffeithio gan benderfyniad a phenderfyniadau di feddwl ac annoeth i adael yr Undeb Ewropeaidd. Wrth i ddiwedd Mawrth nesau, ymhlith fy mhryderon cyffredinol y mae'r pryder ynglyn â pha mor llafar fu'r Eglwys rhan arweiniad a beriniadaeth. Gyda'r ddealltwriaeth o fywyd a chyflawnder bywyd yng Nghrist, gweithred naturiol, hollol naturiol yw pwyso a mesur yr hyn oll sy'n rhan o'n hanadliad dynol. Yn economaidd ond yn fwy felly yng nghyd destun natur cymdeithas a pherthynas unigolion â'i gilydd a'r perygl real i hyn wanio gan greu sefyllfoedd fydd yn caniatáu i hiliaeth a rhagfarn ddwyshau. Mae'r Cenin Pedr ar y clawr yn ein hatgoffa o wanwyn newydd a gyda hynny y gobaith am fywyd sydd yn cynnal ac yn aeddfedu yn hytrach na bygwth a difetha.

Yn ail, mae hi'n mis Mawrth, mis ein Nawddsant. Diolch i Anne Aruska ac Eurig am eu cyfraniadau cyfoethog ar Dewi. Mae Anne a'r phriod Iestyn yn gymaint rhan o fywyd y Morfa a'r Eglwys Gatholig yn Aberystwyth ac mae'r erthygl yn dangos y parch a ddangosir tuag at Dewi yn nhraddodiad yr eglwys. Yn ddifyr iawn, rhan credo, person ceidwadol oedd Dewi yn pregethu yn erbyn yr hyn a elwir yn Pelagianaeth, heresi gyda phwyslais ar gyfrifoldeb yr unigolyn tros ei iachawdwriaeth/hiachawdwriaeth. Yn Synod Brefi, tua'r flwyddyn 519 fe'i gwahoddwyd i ddweud gair a phryd hynny yn

ôl traddodiad cododd y tir oddi tano ac arhosodd colomen wen ar ei ysgwydd. Y cymeriad Rhygyfarch sy'n gyfrifol am fanylion ei hanes, gŵr sy'n perthyn i gyfnod diweddarach ac felly yng nghymysgedd gwirionedd a thraddodiad fe gedwir ar gôf ei fywyd a'i eiriau ac yn arbennig felly ei eiriau olaf –

'Byddwch lawen. Cadwch y ffydd. Gnewch y pethau bychain'.

Ar un llaw mae yna rhyw eironi yn perthyn i'r geiriau. Gyda'i bwyslais ar iachawdwriaeth trwy ffydd mae Dewi yn dyrchafu gweithredoedd dynol ac yn galw ar ei wrandawyr i rhoi ffydd ar waith ym mhethau cyffredin bywyd. Ar y llaw arall mae nhw'n eiriau naturiol ac yn sôn am y math o fywyd 'rydach chi a fi yn ceisio'i fyw o ddydd i ddydd. Ac felly mae'r darlun ar y clawr yn sôn am Gymru ddoe, yn etifeddiaeth gyfoethog sydd wedi achosi i ni fod y bobl ydan ni ond ar yr un pryd yn sôn am Gymru heddiw, a'r her i warchod yr hyn sy'n dda ac yn gywir. Ac i bobl ffydd mae hynny'n golygu rhoi Duw yng Nghrist yn y canol, yn argyhoeddiad, goleuni ac ysbrydoliaeth a chaniatau i'r cyfan lywio ein meddyliau a'n geiriau a'n gweithredoedd.

‘Dros Gymru’n gwlad, O! Dad dyrchafwn gri,
Y winllan wen a roed i’n gofal ni;
D’amddiffyn cryf a’i cadwo’n ffyddlon byth,
A boed i'r gwir a'r glân gael ynddi nyth;
Er mwyn dy Fab a'i prynodd iddo’i hun,
O! crea hi yn Gymru ar dy lun.’

Dydd Gŵyl Dewi hapus i bawb ohonoch a mwynhewch y cawl!

Eifion



NEWYDDION

Aelod Newydd

- ✦ Braint i ni yw cael croesawu aelod newydd arall i Gapel y Morfa sef Mrs Iona Mason. Gobeithio y bydd yn teimlo'n gartrefol yn ein plith.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau

- ✦ i Wynford Evans sydd wedi gwasanaethu fel blaenor yn yr Henaduriaeth am 70 mlynedd
- ✦ hefyd i Noel Lloyd a William Cynfab Roberts sydd wedi gwasanaethu fel blaenoriaid am 40 mlynedd. Bydd y tri yn cael eu llongyfarch yn yr Henaduriaeth nesaf a Chymdeithasfa'r De yn y Gwanwyn yn Natgaredig

Diolchwn iddynt am eu gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd.

- ✦ Llongyfarchiadau hefyd i Ffion Griffiths ar ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth pres i unigolion yn y Strafagansa Pres a gynhaliwyd yn Ysgol Penglais yn ddiweddar ac i'r ieuenctid eraill a gafodd lwyddiant yn unigol ac fel rhan o grwpiau pres.

Anfonwn ein cofion at

- ✦ Marina Kenyon a'r Parch. Raymond Jones sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty ac at Mrs. Megan Jones sydd wedi symud i Gartref Tregerddan.
- ✦ Cofiwn hefyd am ein haelodau sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi neu mewn cartrefi preswyl.

Cydymdeimlwn yn ddwys â

- ✦ Delyth Williams a'r teulu ar farwolaeth tad Delyth, sef Mr. T. L, (Tommy) Thomas, Caernarfon, gynt o Goedlan y Frenhines.
- ✦ hefyd â Mrs. Rhiannon Morgan ar farwolaeth ei phriod, Mr. Geraint Morgan ac â'r plant, Brian ac Eirlys a'u teuluoedd.

Cais am gymorth

Oes gennych rhyw awr neu ddwy i'w sbario ac yn chwilio am gwmni difyr! Os felly byddai Eluned merch y diweddar Merêd yn falch o dderbyn gair. Byddai cadw cwmni yn ystod yr oriau hynny i Phyllis yn help mawr. Rhowch wybod i Arwel.

Cofiwch am yr Oedfa Gŵyl Dewi Undebol yn y Morlan Mawrth y 3ydd am 10 o'r gloch.

Bydd hon yn Oedfa Deuluol dan arweiniad Owain Roberts,
Seion



Cinio Bara a Chaws Cymorth Cristnogol 12.00 o'r gloch tan 1.30

4 Mawrth yn Seion, Stryd y Popty

Casgliad Cymorth Cristnogol y Morfa

Trosglwyddwyd £1,500 i Gymorth Cristnogol, sef ein casgliadau Bara i'r Byd ac achlysuron arbennig yn 2018. Bydd yr arian yn mynd at Apêl y Cynhaeaf ac yn helpu i ariannu prosiect 'Breaking the Barriers' ym Malaŵi, Ethiopia, Honduras a Burkina Faso. Nôd y rhaglen 'Breaking the Barriers' yw cynyddu swyddi ac incwm gwragedd cefn gwlad yn y sector ynni cynaliadwy, gwella amodau gwaith ac amodau byw, hyrwyddo cydraddoldeb rhyw, a chryfhau statws cymdeithasol menywod.

Am bob £1 sy'n cael ei chyfrannu i'r Apêl hon mae'r Undeb Ewropeaidd yn cyfrannu £4. Felly bydd ein cyfraniad ni yn werth £7,500 i'r Apêl.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Dathlu Dydd Gŵyl Dewi

“O Ddewi sanctaidd, gelwi'n gwlad yn gyson
ar hyd canrifoedd maith i'r dyddiau fydd.
O oes i oes gwrandawn, er pob ymryson,
dy eiriau di: 'Bydd lawen, cadw'r Ffydd'
Moes di dy law i'n tywys a'n hachlesu,
rho dros ein hannwyl wlad dy gymorth di.
Dwg ni at ein Duw, yn ufudd, i gyffesu
Iesu, yn Ben a Brenin fyth i ni.”

Dyma bennill cyntaf a chytgan yr emyn Catholig traddodiadol i Ddewi Sant. Dysgir fersiwn Saesneg yr emyn mewn nifer o ysgolion Catholig Cymru a'i ganu yn yr eglwysi ar Ddydd Gŵyl Dewi – ac mae rhai ohonom, Gatholigion Cymraeg ein hiaith, hefyd yn ddigon cyfarwydd â'r fersiwn Cymraeg a gyfieithwyd gan T. Gwynn Jones o waith gwreiddiol Archesgob Francis Mostyn.

Mae nifer fawr o eglwysi wedi'u cysegru i Dduw yn enw Dewi Sant, y mwyafrif ohonynt yn Ne a Gorllewin Cymru – ond eraill hefyd yng Ngogledd Cymru, Cernyw a De-Orllewin Lloegr, yn Llydaw ac yn Iwerddon. Yn wir, bydd nifer o'n cyd-Geltiaid yn Llydaw yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r seintiau, trwy esiampl dda eu bywydau, yn ein harwain at Iesu – ac mae bywyd a geiriau Dewi Sant, ar hyd y canrifoedd, yn dal i'n harwain at ein Gwaredwr.

Gan fod i'r Offeren le mor ganolog yn yr addoliad Catholig, bydd llawer o'n heglwysi'n cynnal Offeren ar Ddydd Gŵyl Dewi - a gwelir digon o Gennin Pedr yno! Ond gan fod cymaint o offeiriaid ac aelodau'r Eglwys Gatholig yng Nghymru yn brin eu Cymraeg, cynhelir llawer o'r Offerennau yn uniaith Saesneg ac eraill gydag ychydig o Gymraeg. Mae'n debyg taw dim ond yng Nghaerdydd y cynhelir Offeren yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Eleni, cynhelir Dydd Gweddi Byd-eang y Merched ar Ddydd Gŵyl Dewi a bydd nifer o'n haelodau'n cymryd rhan mewn trefi a phentrefi ar draws Cymru gyda'n cyd-chwioriudd o eglwysi a chapeli eraill – a hynny gan wybod bod merched ar draws y byd yn gwneud yr un fath â ni. Er nad cofio ein nawddsant fydd bwriad Gwasanaethau Dydd Gweddi Byd-eang y Merched, eto i gyd byddwn yn dilyn ei esiampl a'i gyngor wrth inni “wneud y pethau bychain”, gan ddod at ein gilydd i weddïo ac i foli Duw.

Yn dilyn y Gwasanaeth hwnnw yn Aberystwyth - a gynhelir yn Eglwys y Santes Fair eleni – af ar funion i Gaerdydd ar gyfer yr Offeren Gymraeg i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae gwahoddiad wedi mynd at eglwysi a chapeli Cymraeg y ddinas, a disgwylir y bydd nifer o'u haelodau yn ymuno â'r gynulleidfa yn Eglwys Gatholig Teilo Sant. Yn sicr, bydd canu neilltuol o dda ar yr emyn olaf, “Gweddi dros Gymru” o waith Lewis Valentine wrth inni - gyda'n gilydd ac er cof am Ddewi Sant - seinio “haeddiannau'r addfwyn Oen”.

Anne Uruska



Cynhadledd Dechrau o'r Newydd 29–30 Mawrth 2019 Canolfan Merched y Wawr, Aberystwyth

Beth yw ystyr bod yn Gristion yng Nghymru'r 21fed ganrif?
Sut mae cysoni credo crefyddol â byd-olwg gwyddonol? Ai yn
nhermau myth y mae deall crefydd, a'r stori Gristnogol yn
benodol? Beth o'n treftadaeth a'n defodau cyfarwydd y mae'n
bwysig ei gadw ac i ba raddau mae rhaid dechrau o'r newydd?

Dyma rai o'r cwestiynau a ysgogodd gynnull y Gynhadledd
hon a noddir gan Gristnogaeth 21

Rhaglen Ddrafft

Nos Wener

6.30 Bregus, sef cyflwyniad/perfformiad am fenywod yn y
capel yng ngofal Rhiannon Williams a Lowri Davies

Dydd Sadwrn

9.30 Cofrestru a Choffi

10.00 Cynog Dafis: Croeso a chyflwyniad: Pam yn ni yma?

10.15 Arwel Jones: Achos i faddau, achos i feddwl:

pererindod bersonol

11.00 Seibiant

11.15 Catrin Williams: Agweddau ar 'Ffydd' a 'Chredu'

12.00 Gareth Wyn Jones: Mytholeg Feiblaidd ac Esblygiad
ein Hymddygiad

12.45 Cinio

1.15 Huw Williams: Dechrau newydd i ddyneiddwyr: troi
'nôl at grefydd?

2.00 Cynog Dafis: Crynhoi'r trafodaethau

2.30 Bord Gron

3.15 Beth Nesaf (os rhywbeth)?

<http://cristnogaeth21.cymru/newyddion>

Y Gymdeithas

Pnawn Llun, 4 Chwefror, croesawyd Huw Ceiriog Jones atom i'r Gymdeithas i sgwrsio ar y testun, 'Hen Deip'. Daeth yn amlwg mai ei hobi ers dros hanner can mlynedd yw argraffu llyfrynau, pamffledi, cardiau a llawer o bethau eraill a hynny ar ei wasg bersonol, 'Gwasg Nant y Mynydd'.

Bu Huw yn gweithio am flynyddoedd lawer yn y Llyfrgell Genedlaethol a braf oedd gweld cynifer o gyn- staff y Llyfrgell a sydd yn aelodau o'r Gymdeithas yn bresennol i wrando ar ei sgwrs. 'Roedd wedi paratoi arddangosfa gynhwysfawr o'i waith a chafwyd cyfle, dros baned, i edrych yn fanwl a thrafod y cynnwys ar ddiwedd y cyfarfod. Arweniwyd y defosiwn gan Dafydd Morgan Evans a diolchwyd iddo gan Huw Owen, y ddau wedi cydweithio gyda Huw Ceiriog yn y Llyfrgell Genedlaethol.



Dyddiadur Mawrth

11 Mawrth, nos Lun am 7.00 'Fleure, Aberystwyth a Chymru'
gyda Rhys Jones

Mrs Ethel Williams.

Un o bobl y Tymbl oedd Ethel, yn ymgorfforiad o nodweddion y rhan arbennig yna o Gwm Gwendraeth. Cymuned lofaol, glos ble ‘roedd y Gymraeg yn gryf a’r diwylliant Cymreig yn cael ei gynnal ar aelwyd a chapel. Wedi derbyn ei haddysg elfennol yn yr ysgolion lleol rhoddodd ei bryd ar hyfforddi’n nyrs ond oherwydd cyflwr iechyd ei mham bu’n rhaid canolbwytio ar gyfrifoldebau’r cartref a dyna mewn gwirionedd fu hanes Ethel trwy gydol ei bywyd. Ymhen amser priododd â Howard, un o fechgyn Rhydaman ac eglwys enwog Bethany gyda’i thraddodiad Efengylaidd a dechreuwyd taith a arweiniodd i Aberystwyth. Yn wraig ifanc ac yn fam i dri o blant ‘roedd bywyd yn brysur a hithau fel pob mam dda arall yn llawn gofal a chefnogaeth. Darllenwyd ychydig benillion gan Janet yn y gwasanaeth angladdol ac yn eu plith, y geiriau canlynol –

‘Diolchwn o waelod calon
am fam mor hael a ti,
yn ffyddlon ac yn barod
i wneud unrhywbeth i ni’.


Yn fam, mamgu a hen famgu ond hefyd ffrind. Mawr fu gofal Howard ac Ethel tuag at yr enwog Charles Clements gan droi eu cartref yn gartref iddo yntau hefyd. A lle fel yna oedd ‘Wisteria’. Coedlan y Llwyfen, cartref llawn croeso a chyhesrwydd. Er i’r blynyddoedd diwethaf gyfyngu ar symudiadau Ethel, ‘roedd wrth ei bodd yn dal ar bob cyfle i fod ymhlith ffrindiau. Byddai’r baned coffi bore Sadwrn yn yr ‘Express Café’ ac ymhen amser, Tesco yn golygu gymaint iddi a chael bod yn rhan o gymdeithas oedd yn rhoi y byd yn ei le! Estyniad oedd y gymdeithas yna o gymdeithas y Morfa, a bu ei ffyddlondeb i weithgaredd yr eglwys yn esiampl ac yn sisybrydoliaeth. Oedfaon y Sul, Cyfarfod bore Mawrth yn y Morlan, y Gymdeithas ac unrhyw gyfarfod arall oedd o werth ym meddwl Ethel. Agosatrwydd ei chymeriad a’r ffydd cywir,

syml, di gŵyn yna fu'n gymaint o gysur a chynhaliaeth iddi trwy gydol ei bywyd. Wedi cyfnod yn Ysbytai Bronglais a Thregaron bu farw'n dawel ychydig ddyddiau cyn y Nadolig.

Cydymdeimlwn yn ddwys â John, Janet, Anna a'u teuluoedd.

Bu'r angladd yng Nghapel y Morfa ar y 3ydd o Ionawr ac yn dilyn yn Amlogfa Aberystwyth gyda'r Parchedigion Eifion Roberts ac Ann Jenkins yn gwasanaethu.

Cyfarfod Arbennig Mis Mawrth



Ar y 31ain o Fawrth byddwn yn croesawu Y Parch Manon Ceridwen James atom i'r oedfa'r nos. Yn wreiddiol o Nefyn ac yn offeiriad gyda'r Eglwys yng Nghymru mae bellach yn rhan o dîm hyfforddiant Sefydliad St Padarn. Y mae teitl ei llyfr diweddar yn dangos maes ei diddordeb a braf fydd ei chroesawu i'n plith.

Ei Dilys Ni!

Hyfydwch mawr i ni fel eglwys oedd deall bod Dilys Mildon wedi ei dewis yn Dywysydd swyddogol Parêd Gŵyl Dewi, Aberystwyth. Llongyfarchiadau!.

Cafodd ei geni ar fferm yn ardal Llangwyrfon a mynychu'r ysgol gynradd cyn symud i Ardwyn ac i goleg yng Nghaerdydd. 'Roedd hynny yn dipyn o benderfyniad ac yn sioc i'w mham. Tuedd y cyfnod oedd hyfforddi ar gyfer y byd addysg neu'r gyfraith ond dan ddylanwad un neu ddau arall, dewis Dilys oedd Gwyddor Tŷ a'r hyn oedd yn cael ei alw yn y pryd hynny yn 'Hotel Management'. Yno y cyfarfu Dave ac yno y ganwyd eu merch Lisa. Symud wedyn i Lundain oherwydd gwaith Dave gyda British Airways ond bu cefnogaeth Dilys i'r pethau Cymreig yn esiampl ac yn arbennig felly addysg Lisa. Ymhen pum mlynedd, dychwelyd i Aberystwyth oherwydd cyfrifoldebau teuluol a dechrau ar y fenter fawr o agor Gannets. Yn ogystal â darparu bwyd i siwtio pawb, y fendith fwyaf oedd cyfarfod pob math o bobl. Pobl lleol, myfyrwyr, pobl ar wyliau a phob diwrnod yn wahanol. Braff oedd codi bob bore ac edrych ymlaen i weithgaredd y dydd. Ond bellach 'roedd yn amser ymddeol!

Beth felly am yr anrhydedd?

Syrpreis, teimlo'n anheilwng ond yn falch iawn o'r fraint. Mwynhewch y diwrnod Dilys a diolch am bopeth!





Brexit a'r gymuned amaethyddol.

Mae hi nawr yr 16eg o Chwefror a dim ond pum wythnos sydd nes fydd y Deyrnas Unedig yn ymadael a'r Undeb Ewropeaidd, ac eto nid yw'n glir pa fath o gytundeb a gawn ar ôl i ni adael; ond mae hi'n bwysig tu hwnt i'r diwydiant amaeth, yn enwedig y sector cig coch, fod yna gytundeb mewn lle.

Mae hyn yn bwysig oherwydd cwsmer mwyaf y sector yma tu allan i'r Deyrnas Unedig yw'r Undeb Ewropeaidd. 'Rydym yn allforio rhwng 30-40% o gynnyrch cig coch, ac mae oddeutu 94-96% o hynny yn mynd i Ewrop.

A dyna beth sydd yn dod ag elfen o gystadleuaeth i'n marchnad. Os edrychwn yn ôl i flwyddyn traed a'r genau pan fethon ni allforio i'r Undeb Ewropeaidd, disgynnodd prisiau cynnyrch cig coch i lawr i draean eu gwerth.

Mae'r farchnad Ewropeaidd yn bwysig ar gyfer marchnad wŷn bychain mynyddog, ac mae'r darnau o'r wŷn mawr nad ydym yn eu defnyddio, hefyd yn cael eu hallforio i'r farchnad Ewropeaidd.

Mae'n bosib mewn cytundeb caled y gwelwn dollau oddeutu 40-60% ar ein cynnyrch, a dim tollau ar fewnforion, am y rheswm fod Llywodraeth Llansteffan am gadw pris bwyd i lawr mewn amser o ansicrwydd.

Felly, i'r diwydiant amaeth, mae hi'n bwysig cael cytundeb masnach âg Ewrop, neu bydd hi yn ergyd drom i gefn gwlad Cymru.

I grynhoi; yr oeddem yn meddwl fod cytundeb y Prif Weinidog yn un da ar gyfer masnach yn y cyfnod 'transition', yr oedd yn

gadael i ni fasnacha'n ddi-doll â'r Undeb Ewropeaidd a hefyd yn caniatáu ni i edrych am farchnadoedd newydd i'n cynnyrch. Mae nifer o opsiynau eraill ar y bwrdd ac felly fe fydd yn amser heriol i San Steffan dros yr wythnosau nesaf.

Diolch i Wyn Evans, blaenor yng Nhapel Caradog a Chadeirydd Pwyllgor da byw NFU Cymru am y geiriau yma.

Noson Lleuwen Steffan

Braf oedd cael croeswau Lleuwen Steffan i'r Morfa i lansio ei halbwm newydd 'Gwn Glân a Beibl Budur'. 'Roedd wedi dewis pedwar capel yng Nghymu ar gyfer y daith oherwydd y berthynas rhwng cerddoriaeth ac ysbrydolrwydd. Cafwyd cwmni'r Prifardd Hywel Griffiths ar y noson a chyfle i wrando'n feddylgar ar rhai o'i gerddi.


Gweler 'Be fydda Pantycelyn yn ddweud?'



DYDD GWEDDI'R BYD

(Rhyngengwadol)

Mawrth 1af 2019



DEWCH –
MAE POPETH
YN BAROD

Paratowyd gan Chwirydd Cristnogol Slofenia

Cofiwch am Oedfa Dydd Gweddi'r Byd yn
Eglwys y Santes Fair ar Fawrth y 1af am 2 o'r
gloch.

Gwasanaeth wedi ei baratoi gan Chwirydd
Cristnogol Slofenia.



Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Gogledd Ceredigion

**Dydd Sadwrn, Ebrill 13eg am 2.30. yng Nghapel
Seion (y pentref)**

Anerchir gan Llinos Dafis, Capel y Garn

Bydd Mary Jones Morris yn barod i dderbyn y blychau Cenhadol neu unrhyw gyfraniad ariannol at y genhadaeth cyn ddiwedd Mawrth fel rhan o gyfraniad Capel Y Morfa at waith cenhadol Eglwys Bresbyteraidd Cymru yma yng Nghymru ac mewn gwledydd tramor. Gan ddiolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth parod fel arfer.



Be fydda Pantycelyn yn ddweud?

Gig o oedfa. Oedfa o gig.

Dwi'n amau bod gen i lawer i'w gynnig i fforwm ffydd y cyfnod hwn ond dwi yn gwybod pan mae rhywbeth neu rhywun drwy eu dawn a'u gweledigaeth yn hoelio fy sylw ac yn gwneud i mi feddwl ... 'dyna dwi'n feddwl ... pam na fedrwn i ddweud hynna

Roedd gig Lleuwen yn crynhoi sut deimlad ydy hi i fod yn Gristion yn yr oes hon.

Roedd mwy na Pantycelyn i'r noson ond mae'n fachyn da i'r drafodaeth. Mae Williams, wnaeth gymaint i newid y traddodiad yr oedd o'n byw ynddo fo, wedi hen fynd yn draddodiad ynddo'i hun. Petaen ni'n teithio'n ôl mewn amser neu Williams yn gallu eistedd yn un o'n hoedfaon ni, tybed faint o wahaniaeth fyddai yn y ffordd fydden ni'n ymwneud â'i emynau o? Allai fentro dweud, digon ychydig? Dim ond efallai ein bod ni'n deall llai ar y geiriau. Geiriau yr ydyn ni wedi bod yn eu canu ers cymaint nes eu bod nhw'n rhan o'n DNA, am y tro.

A dyma chi Lleuwen. Yn hanner sibrawd ei chwestiynau. Mor agored. Mor ddifffuant ei hysbrydolrwydd. Yn chwarae efo Williams, yn ei herio fo ac yn ein herio ni.

Mae Lleuwen yn fflyrtio efo Williams, yn trin y tonnau a'i eiriau o'n chwareus. Ond eto'n pendilio, weithiau o fewn un cân, o rwystredigaeth gwallgof y cordiau rhyfeddol hynny â'u curiad caled, i isalaw anniddig, i gordiau a nodau unigol oedd yn diferu o dynerwch, i acappella bendigedig o syml oedd yn mynnu 'Iesu, Iesu rwy'ti'n ddigon ...'

Clywais adlais fy nghalon fy hun yn fy mherthynas a'r anghydfurfiaeth-gydymffurfiol sydd ohoni. Chwarae mig â'r

gwirionedd. Weithiau'n clywed cytgorff perffaith, dro arall y disgord rhyfedda yn datrys ei hun yn y modd mwyaf creadigol posibl. Gwrando eto ar hen eirfa, ceisio ail-ddehongli hen ddelweddau, y gobaith ddaw i rhywun o weld o'r newydd, a'r rhwystredigaeth o orfod cerdded trwy gors o ddiymadferthedd.

Ond nid yw Lleuwen yn bodloni ar ail ddehongli'r hen DNA, mae'n cyfosod hen, hen eiriau 'Myn Mair', eto i mi yn llawn o gordiau rhwystredig a symlwrwydd glân, gyda'i hychwanegiadau ei hun at y traddodiad, ei hemynau cyfoes ei hun fel yn 'Hwyr', 'Cofia Fi', 'Tir Na nOg', 'Bendigeidfran', 'Y Garddwr'.

Mae'r rhwystredigaeth gyda'r anghydfurfiaeth-gydymffurfiol yn cael ei finiogi o weld patrwm gwahanol yn gweithio a gwybod nad ar chwarae bach y byddwn ni'n rhoi cyfle i gynulleidfa o dros gant, rhwng 6 oed a 90 oed, i fentro'i mewn am y tro cyntaf, neu o leiaf i eistedd mewn sêd wahanol a chael cip fymryn yn wahanol ar Iesu Grist.

Ond mae gan Lleuwen lwyfan a llais i'w ryfeddu. Diolch amdano.

A Williams, be fydda Williams wedi ei ddweud? Williams y dyn modern hwnnw? Williams y DIWYGIWR? Fydda fo wrth ei fodd yn cael ei oglais gan Lleuwen.

Ac os buodd yna 'Amen' ar gig erioed, fuodd yna erioed un tebyg i 'Weddi'r Arglwydd' fel y cyflwynwyd hi ar ddiwedd 'Hwyr' gan Lleuwen nos Sul.

*Gydag ymddiheuriadau i'r Prifardd Hywel Griffiths bod ei gyfraniad gwych yntau y tu hwnt i gyrraedd fy 500 gair.

Arwel

Clwb Ieuenctid a Hwyl Hwyr

Nos Lun 21ain o Ionawr cawson noson yng nghwni Karen Roberts o Wasanaeth Tân Ceredigion, Trafodwyd nifer o bethau sy'n achosi tân, ac 'roedd am wneud yn siwr ein bod yn ymwybodol o'r peryglon. Cafodd pawb gyfle i drïo peth o'r gwisgoedd a'r offer. Mae Karen wedi ein gwahodd i'r Orsaf Dân yn nes ymalen yn y flwyddyn. Diolchwyd iddi gan Tomos Garrero.



Nos Lun 11 o Chwefror Daeth Mr Gareth Owen atom a chafwyd cyfle i fwynhau peintio a dysgu techneg gwahanol gyda brwsh paent. Diolchodd Lleucu i Mr Owen.

Nos Lun 18 o Chwefror daeth Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO), Kris atom i roi sgwrs. Mae Kris yn byw yn Llanidloes ag yn gweithio yn Aberystwyth,



Ni fydd Clwb Ieuenctid Nos Lun 25ain o Chwefror gan ei bod yn Hanner Tymor. Gobeithio y cewch ylliau wrth eich bodd!

Elen ac Eleri

Golygyddion y mis hwn yw Eifion ac Alwen.
Golygyddion y mis nesaf yw Gwerfyl a Menai.
Cyfraniadau ar gyfer rhifyn Ebrill PERTHYN at
Gwerfyl (gwerfylpj@googlemail.com) neu
Menai (menaillyd@googlemail.com) erbyn
dydd Gwener yr 22ain o Fawrth.

Y Pethau Bychain

Cafodd y gerdd hon ei chomisiynu ar gyfer rhaglen Dechrau Canu Dechrau Canmol rai blynyddoedd yn ôl, a hynny ar gyfer Gŵyl Ddewi. Ry'n ni i gyd yn gyfarwydd â'r geiriau enwog 'gwnewch y pethau bychain', ond fe es i'n ôl at y fuchedd er mwyn darllen y geiriau'n llawn. Ro'n i ar y pryd yn gweithio ar brosiect Cwlt y Seintiau yn y Ganolfan Uwchefrydiau, ac wedi dod yn reit gyfarwydd â bucheddau'r seintiau Cymreig. A bod yn gwbl onest, chydig o lenyddiaeth arhosol sy yn y rhan fwyaf ohonyn nhw! Ond mae'r darn hwnnw ar ddiwedd buchedd Dewi yn eithriad. Dyma'r frawddeg yn llawn:

Arglwyddi, frodyr a chwiorydd: byddwch lawen, a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf i.

Mae'r ffaith fod Dewi wedi dewis cyfarch y 'chwiorydd' yn ogystal â'r 'brodyr' yn nodedig, ac mae'r anogaeth i 'wneud y pethau bychain' yn eiconig, wrth gwrs. Ond mae'n bwysig cofio hefyd mai'r hyn mae Dewi yn ei ddweud gyntaf – ei orchymyn cyntaf, yn wir – yw 'byddwch lawen'. Yn y dyddiau ddigon digalon hyn, mae'n bwysig cadw'r geiriau hynny mewn cof.

Mae'r gerdd yn dychmygu beth fyddai Dewi'n ei ateb i'n cwestiynau digon digalon ni am broblemau'r oes hon.

Y Pethau Bychain

Mae'n dywydd gwamal, Dewi,
Mae'r byd yn araf boethi,
I ble'r af innau rhag y glaw
Pan ddaw hi'n amser boddi?

Ni wn a fydd yfory
Ai glaw ai hindda'n twnnu,
Ond does dim drwg mewn llenwi myrdd
O fagiau gwyrdd ailgylchu.

Mae'r iaith yn marw, Dewi,
Be' wna' i rhag ei threngi?
Er pob rhyw ddeddf neu ddadl, wir,
Fe gollodd dir eleni.

Mesurau iaith y gwleidydd
Heb sgwrs a chlonc a dderfydd,
Rhaid ei harfer i'w hadfer hi,
Siarada di hi beunydd.

Ond Dewi, mae mor dywyll
Ym myd y gwalch a'r cudyll,
Pa iws rhoi coel ar obaith 'to
Tra bo rhyfeloedd erchyll?

Er dued y gorwelion
Mae haul ar eu hymylon,
Does dim i'w ennill o din-droi
A chnoi ar wae'n ddigalon.

Tra'r tyle, tra'r golomen,
Tra'r genedl a'r genhinen,
Cedwch yn daer o ddydd i ddydd
Eich ffydd, a byddwch lawen.

Eurig Salisbury

Gweddi

Crist yn Galw

Arglwydd Iesu, yr wyt ti yn galw arnaf
yn y tlawd,
yn y newynog,
yn y llesg a'r gwan:
yr wyt yn gofyn am fy ngweddi a'm gwasanaeth.
Arglwydd Iesu, yr wyt yn galw arnaf
yn y digartref,
yn y dieithryn,
yn y dioddefwr
a'r sawl a ormesir:
yr wyt yn gofyn am fy ngweddi a'm gwasanaeth.
Arglwydd Iesu, yr wyf am dy ddilyn di:
pan fyddi di'n galw, helpa fi i glywed dy lais;
pan fyddi di'n cymell, cadw fi rhag edrych yn ôl;
pan fyddi di am fy nefnyddio mewn gweddi ac mewn
gwaith,
helpa fi i roi fy hun yn llwyr ac yn eiddgar i ti.

Amen

Janet Morley, allan o Amser i Dduw, Gol. Elfed ap Nefydd
Roberts



Newyddion Ebeneser



Anfonwn ein cofion at Marina Kenyon sydd wedi bod yn yr ysbyty ac at ein haelodau a'n cyfeillion sydd yn methu ymuno â ni yn y gwasanaethau ar brynhawn Sul.

Cynhelir Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd ar ddydd Gwener Mawrth 1af yn Eglwys Santes Fair. Eleni lluniwyd y gwasanaeth ar y thema Dewch mae popeth yn barod gan Chwiorydd Slofenia.

Byddwn yn barod i dderbyn y blychau cenhadol neu, unrhyw gyfraniad at y Genhadaeth erbyn y Sul cyntaf yn Ebrill os gwelwch yn dda. Bydd Rhidian Griffiths, y Trysorydd yn anfon cyfraniad ar eich rhan at Drysorydd Pwyllgor Sasiwn y De. Gwerthfawrogir cyfraniad Ebeneser at y Genhadaeth ar hyd y blynyddoedd.

SWYDDOGAETHAU MAWRTH 2019

Blaenor y Mis David Alun Jones

Porthorion David Alun Jones, Elfed Jones, Elsbeth Jones

Blodau'r Cysegr – Y Morfa

- 3 Eleri Davies
- 10 Megan a Wyn Hughes
- 17 Beti a John Roberts
- 24 Menai Lloyd Williams
- 31 Sarah Down-Roberts a Gwen Down

Blodau Ebeneser

- 3 Hilda Williams
- 10 Denise Morgan
- 17 Sylvia Lewis
- 24 Susan Hughes
- 31

Cynorthwywyr Llestri Cymun

- 17 (Bore) Mary Jones, Beryl Roberts, Anne Edwards

Cynorthwywyr Ariannol

- 3 William a Mair Griffiths
- 10 Beti Roberts a Blodwen Williams
- 17 Alun a Mary Jones Morris
- 24 Meirion Morgan a Menai Lloyd Williams
- 31 Brian Thomas a Dafydd Morgan Evans

Tregerddan

31 Dan ofal Gwenan Creunant

Cinio Bara Chaws

Mawrth 4 - Seion, Stryd y Popty

Y Gymdeithas

Nos Lun, 11 Mawrth – Fleure, Aberystwyth a Chymru yng nghwmni Rhys Jones

DYDDIADUR MAWRTH 2019

Gwasanaethau'r Sul - 10.00 a 5.00 yn y Morfa (ond yn newid i 6.00 ar 31 Mawrth 2019), 2.15 yn Ebeneser

3 Oedfa'r Parêd yn y Morlan yn y bore dan ofal Owain Roberts

Eifion Roberts yn Ebeneser ac yn yr oedfa nos

10 Densil Morgan

17 Eifion Roberts (**oedfa Gymun yn y bore am 10**)

24 John Roberts

31 Eifion Roberts (**oedfa nos am 6.00**)

Ysgolion Sul - Plant ac Ieuenctid: bore am 10.00

Clwb Hwyl Hwyr – bob prynhawn Llun, 3.45-5.00

Clwb Ieuenctid – bob prynhawn Llun, 3.45-5.00

Cylch Gweddi a Choffi – bore Mawrth am 10.30

Astudiaeth Feiblaidd – nos Iau am 7.15

Ffydd a Phaned – prynhawn Gwener am 2.00

Llun y clawr gan Amelia a'r lluniau eraill gan Laurie, Elen, Mary Olwen a Deian.

Plant a leuencid yr Ysgol Sul yn dathlu Gŵyl Dewi

